




General Optical Council

Beth rydym ni wedi ei gyflawni hyd yma

Dadansoddiad strategol

Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2020



# Cynllun strategol

Ebrill 2017 – Mawrth 2020

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** **3**

Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

**Beth rydym ni wedi ei gyflawni hyd yma** **5**

**Dadansoddiad strategol** **7**

Amddiffyn y cyhoedd

Y galwadau newidiol ar y proffesiynau optegol

Effeithiolrwydd y GOC

Y newidiadau o fewn yr amgylchedd allanol

**Beth rydym ni am ei gyflawni erbyn 2020** **12**

Mae gan ein canlyniadau effaith ar fudd y cyhoedd

Ein gweithgareddau

Sut byddwn yn mesur cynnydd

**Cysylltu â ni** **16**

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Wrth gynhyrchu'r cynllun strategol hwn rydym wedi bod yn ystyriol yn gyson o'r angen i gadw diogelwch cleifion wrth galon popeth a wnawn ni.

Ni yw rheoleiddwyr proffesiynau sy'n newid yn gyflym. Gallai technoleg newydd beri i rai o'r dulliau traddodiadol mae'n cofrestreion wedi gweithio ers degawdau fynd yn ddarfodedig.

Ond ar yr un pryd, mae poblogaeth sy'n heneiddio a phwysau ar wasanaethau'n GIG yn golygu bod mwy o alw am wasanaethau gofal llygaid nag erioed o'r blaen. Gall optometryddion ac optegwyr dosbarthu chwarae rhan fawr mewn bodloni'r galwadau hyn drwy ysgwyddo rolau newydd.

Yng ngoleuni hyn, ni ddylai fod yn syndod felly bod addysg wrth galon ein cynllun strategol. Yn ddiweddar rydym wedi cychwyn ein Hadolygiad Addysg Strategol ac wedi ymrwymo i sicrhau bod proffesiynau opetgol yn barod i wynebu heriau'r degawdau sy'n dod.

Mae'n ddarn o waith sylfaenol bwysig a bydd yn effeithio ar ansawdd gofal llygaid pawb yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Bydd llwyddo yn dibynnu ar benderfyniad a chydweithrediad agos â'n rhanddeiliaid.

Byddwn hefyd yn ysgogi gwelliannau i sut rydym yn cynnal ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Rydym wedi gwneud cynnydd yn ystod cyfnod ein cynllun strategol diwethaf wrth foderneiddio'n prosesau addasrwydd i ymarfer. Bydd y gwaith hwn yn parhau, ynghyd â gweithgarwch ledled y sefydliad i wella'n prosesau a'n gwasanaeth i gwsmeriaid.

Rhaid i bopeth a wnawn ni fod yn bwrpasol, yn effeithiol ac yn gymesur. Mae hyn yn golygu parhau ag ymchwil i ddeall ble mae'r risgiau pennaf a sut mae ymdrin â nhw; gwneud penderfyniadau polisi ar sail sylfaen dystiolaeth gryf; amddiffyn cleifion drwy eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal; a pharhau i bwysu am ddiwygiadau deddfwriaethol a fydd yn ein helpu i weithredu'n fwy effeithiol a chyda mwy o effeithlonrwydd.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn ein helpu i barhau i gyflawni'n rôl wrth amddiffyn a hyrwyddo iechyd a diogelwch y cyhoedd – yn y tair blynedd o 2017 i 2020 a'r tu hwnt.



Gareth Hadley  
Cadeirydd y GOC




Samantha Peters  
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

## Cenhadaeth

Amddiffyn a hyrwyddo iechyd a diogelwch y cyhoedd



## Ein gwerthoedd

<p><b>Cyfrifol</b> Rydym yn ennyn hyder oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn gwneud penderfyniadau eglur, pwylllog ar sail tystiolaeth</li> <li>Rydym yn cyfrif am ein gweithredoedd ac yn agored i graffu</li> <li>Rydym yn cymhwyso'n hadnoddau mewn modd pwrpasol a chymesur.</li> </ul>	<p><b>Blaengar</b> Rydym yn gwneud gwahaniaeth oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn mynd ar drywydd nodau diffiniedig ac yn mesur ein canlyniadau</li> <li>Rydym yn flaengar, yn arloesol ac yn hyblyg yn ein dulliau o weithio</li> <li>Rydym yn cyflawni ac yn darparu mwy drwy weithio ar y cyd</li> <li>Rydym yn gorff dysgu sydd wedi ymrwymo i welliant parhaus.</li> </ul>	<p><b>Egwyddorol</b> Rydym yn meithrin ymddiriedaeth oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn ennyn parch drwy ein hygrededd, integredd a'n safonau uchel</li> <li>Rydym yn gwrando'n agored, yn gweithredu'n ymatebol ac yn cyfathrebu'n onest</li> <li>Rydym yn ymddwyn yn gyson ac yn deg i bawb</li> <li>Rydym yn meithrin diwylliant positif a chynhyrchiol.</li> </ul>
--	--	---



# Beth rydym wedi ei gyflawni hyd yma

## Safonau Uwch

### hyrwyddo safonau uwch ar draws y proffesiynau optegol

Cyflwynom ni *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu a Safonau Myfyrwyr Optegol newydd* a roddodd fwy o eglurder am yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrth gofrestreion. Eglurom ni'n rôl wrth bennu safonau trwy gyhoeddi'n fframwaith safonau ac wedi datblygu canllawiau ychwanegol am ganiatâd a didwylledd. Daeth dysgu am ein safonau ymarfer yn rhan orfodol hefyd o'n cynllun Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET), sy'n sicrhau addasrwydd cyson cofrestrion i ymarfer. Erbyn hyn mae'n rhaid i bob cofrestrai wneud o leiaf un darn o CET y cylch mewn perthynas â'r safonau newydd a chyflwynom ni ffocws newydd ar gynllunio a myfrio er mwyn annog proffesiynoliaeth.

## Gwella ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth

### hybu ymddiriedaeth y cyhoedd, a galluogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal optegol a chodi unrhyw bryderon

Rydym wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i brynu a gwisgo lensys cyffwrdd yn ddiogel. Ym mis Mawrth 2017 hyrwyddom ni 'Love Your Lenses Week', gan weithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector optegol a grwpiau cleifion i hyrwyddo gwisgo lensys cyffwrdd yn ddiogel. Buom yn cydweithio â'r Sefydliad Safonau Masnachu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau a all godi o wisgo lensys cyffwrdd dim p er (ZPLs), a ddenodd gryn sylw ar draws amrediad o gyfryngau cenedlaethol a phroffesiynol. Rydym hefyd wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran y cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer, gan amlygu pa mor anaml y caiff cofrestrai ei ddileu o'r gofrestr.

## Ymdrin â chwynion yn well delio â chwynion yn gyflymach ac yn fwy effeithiol

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n prosesau cwynion FTP, gan gynnwys newidiadau i'n Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Rydym wedi gwneud y newidiadau hyn i'n helpu i drafod cwynion yn fwy effeithlon ac effeithiol, er budd cleifion a chofrestrion fel ei gilydd. Mae canllawiau newydd ar wrandawiaidau a chosbau yn hybu gwneud penderfyniadau teg a chymesur. Hefyd rydym wedi sefydlu polisi codi pryderon (chwythu'r chwiban) newydd er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu cyfeirio atom ni lle bo'n briodol, yn ogystal â gwella sut rydym yn trafod cwynion corfforaethol.

## Darparu gwasanaethau'n well cyflwyno gwasanaethau ansawdd uchel i'r cyhoedd a'r proffesiynau

Rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr newydd y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) i sicrhau mai'r corff cywir sy'n ymdrin ag unrhyw gwynion - addasrwydd i ymarfer neu faterion defnyddwyr. Rydym wedi darparu hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid i'r timau hynny sydd â'r cysylltiad pennaf â'r cyhoedd. Rydym wedi moderneiddio'n prosesau, yn arbennig wrth newid i ohebiaeth electronig a thaliadau ar-lein. Rydym hefyd wedi gwella'n hymwneud â darparwyr addysg.

## Newid rheoleiddiol gweithredu system rooleiddio bwrpasol a chymesur

Rydym wedi parhau i geisio newidiadau deddfwriaethol i'n helpu i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol. Ond, yn yr un modd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, cawsom ein siomi nad oedd deddfwriaeth ar gyfer hyn yn y Senedd ddiwethaf. Parhawn i ymgysylltu â gweinyddiaethau'r DU a datganoledig, a'n rhanddeiliaid, i bwysu am newid o'r fath. Rydym hefyd yn ystyried pa newidiadau rheoleiddiol gallwn eu gwneud heb ddeddfwriaeth, er enghraifft fel rhan o'n Strategaeth Cwynion am Addasrwydd i Ymarfer (FTP).



### **Sylfaen dystiolaeth well sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth o safbwynt y cyhoedd a sut mae gofal cleifion yn newid**

Mae ein rhaglen ymchwil wedi rhoi dealltwriaeth lawer gwell i ni o'r amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo yn ystod y tair blynedd diwethaf. Arolygon ymhlith cleifion a'r cyhoedd, gwisgwyr lensys cyffwrdd, cyflogeion, cofrestreion a'n rhanddeiliaid sydd wedi llywio'n penderfyniadau polisi, gan gynnwys datblygiad ein safonau ymarfer, a'n cynllun strategol nesaf.

### **Newid sefydliadol adeiladu sefydliad cynaliadwy a modern**

Ym mis Rhagfyr 2015 symudom i swyddfa newydd, fwy modern yn ardal Farringdon Llundain. Mae'r symud i adeilad newydd eisoes yn dwyn nifer o fanteision. Mae'r amgylchedd gweithio mwy modern yn helpu'n cyflogeion i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, bydd yn ein galluogi i wella'n hisadeiledd TG ac mae'n fwy hygyrch, yn arbennig i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl sydd wedi colli golwg. Rydym wedi gwneud gwelliannau i'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu i gyflogeion, gan gynnwys cyflwyno hyfforddiant rheoli ar gyfer rheolwyr sydd newydd ei penodi a chynllun mentora. Rydym yn datblygu dull sicrhau ansawdd i'r sefydliad cyfan sy'n ein helpu i wella cyflymder a chywirdeb ein penderfyniadau. Bydd ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd yn ein helpu i weithredu'n fwy effeithlon ac yn rhoi gwell data i ni am ein perfformiad gweithredol, gan alluogi gwelliant parhaus.



# Dadansoddiad strategol

## Safbwynt strategol – sganio'r gorwel



## Safbwynt sefydliadol – ystyriaethau ymarferol/gallu i'w gweithredu

### Wrth ddatblygu'n cynllun strategol rydym wedi ystyried:

- ein swyddogaeth a'n lle yn y system optegol/reoleiddiol ehangach;
- y maeth o reoleiddiwr ydym ni; beth wnawn ni'n dda, beth na wnawn ni cystal;
- pwy yw'n rhanddeiliaid a sut mae ymgysylltu â nhw i gyflawni'n hamcanion;
- beth yw'n risgiau strategol presennol a pha mor dda rydym yn eu lliniaru;
- ble ydym ni o ran cyflawni'n hamcanion strategol presennol;
- beth ydym ni wedi ei ddysgu o'n profiad o weithredu'r cynllun strategol presennol a pha mor dda rydym yn defnyddio'n hadnoddau;
- sut mae gwella ein heffeithiolrwydd;
- adborth o'n rhanddeiliaid allanol drwy ymgynghori; a
- barn ein rhanddeiliaid mewnol, gan gynnwys cyflogeion ac aelodau.

### Wrth lunio'n cynllun strategol ystyriom ni'r pedair thema strategol ganlynol.

## Amddiffyn y cyhoedd

Y newidiadau presennol a rhai'r dyfodol o fewn yr amgylchedd allanol

Effeithiolrwydd y GOC

Y galwadau newidiol ar y proffesiynau optegol

Mae ein meddwl wedi cael ei lywio gan yr ymchwil rydym wedi ei chomisiynu ymhlith gwisgwyr lensys cyffwrdd, cleifion, cofrestreion a rhanddeiliaid. Mae'n papurau ymchwil cyhoeddus ar gael ar ein gwefan: [www.optical.org/en/news\\_publications/Publications/policy-and-research-papers.cfm](http://www.optical.org/en/news_publications/Publications/policy-and-research-papers.cfm)



# Amddiffyn y cyhoedd

## Dyfodol addysg a CET

Yng ngoleuni effaith newidiadau technolegol a demograffig ar y sector optegol, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant proffesiynau optegol yn adlewyrchu'rnewidiadau hynny ac yn eu paratoi am ddatblygiadau mewn arferion. Mae hyn yn cynnwys addysg cofrestreion y dyfodol a datblygiad ein cofrestreion presennol.

## Diwygio meysydd deddfwriaeth sydd wedi mynd yn hen

Mae diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi ein pwerau i ni'n hanfodol mewn ambell faes. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i wella'n heffeithlonrwydd wrth gyflawni'n swyddogaethau, newid y ffordd rydym yn cofrestru busnesau optegol a rhoi'r gorau i'w gwneud yn ofynnol i bob myfyriwr gofrestru gyda ni. Hefyd mae angen i ni nodi cyfleoedd i ni newid sut rydym yn rheoleiddio, wrth weithio o fewn ein deddfwriaeth bresennol.

## Sefydlu safonau unigol newydd yn llawn a datblygu safonau busnes

Mae ein safonau ymarfer newydd ar gyfer cofrestreion unigol ar waith erbyn hyn. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i weithio i gefnogi cofrestreion i'w bodloni, yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd ac yn datblygu safonau newydd ar gyfer busnesau optegol.

## Ystyriaethau mewn perthynas ag arferion a lleoliadau busnes

Mae angen i ni wneud rhagor o ymchwil er mwyn deall ac ymdrin yn well â'r risgiau i'r cyhoedd a allai godi o'r pwysau mae cofrestreion yn eu hwynebu wrth ymarfer ac yn arbennig lleoliadau ymarfer, yn enwedig felly gofal cartref.

## Ystyried anghenion grwpiau cleifion amrywiol

Mae angen i gofrestreion ddeall eu cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), er mwyn gallu darparu gofal effeithiol sydd wedi ei deilwra i anghenion eu cleifion, fel darparu addasiadau rhesymol, gan gynnwys gwybodaeth hygrych.

## Adolygu'r ymagwedd at gofrestru proffesiynau optegol o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn sgîl Brexit

Mae angen i ni ystyried sut mae dinasyddion o'r tu allan i'r DU yn ymuno â'n cofrestr, gan gynnwys yng nghyd-destun sut y bydd perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac Ardal Economaidd Ewrop yn newid yn y dyfodol yn dilyn canlyniad y refferendwm ar 23 Mehefin 2016.





# Y galwadau newidiol ar y proffesiynau optegol

## Effaith technoleg newydd ac awtomeiddio – newid mewn rolau yn y sectorau optegol a gofal iechyd

Fel a nodwyd yn yr Adroddiad Foresight, mae technoleg newydd, gan gynnwys awtomeiddio, yn debygol o newid sut mae proffesiynau optegol yn gweithio. Mae'n annhegbyol y bydd profion llygaid yn aros fel y maent heddiw ac mae'n debyg y bydd angen i gofrestrion ymbaratoi i gynnal rolau mwy clinigol, gan gynnwys rheoli anhwylderau hirdymor.

## Defnyddio barn fwy proffesiynol wrth ymgymryd â gwaith uwch ei risg

Wrth i'n cofrestrion ymgymryd â gwaith risg uwch mewn rolau estynedig, bydd angen iddynt ddefnyddio eu barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd amrywiol iawn. Mae'n bwysig felly bod ganddynt yr addysg a'r hyfforddiant i gyflawni gweithgareddau a allai ddwyn mwy o risg na'r hyn sydd o fewn cwmplas eu hymarfer ar hyn o bryd.

## Canfyddiadau'r cyhoedd o'r proffesiynau

Mae ein hymchwil wedi dangos bod llawer o aelodau'r cyhoedd yn dal i weld y proffesiwn optegol fel proffesiwn manwerthu yn hytrach na phroffesiwn gofal iechyd. Mae'n bwysig bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth o rolau gweithwyr optegol proffesiynol a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

## Heriau'r sector (cyflenwad y rhyngwrwyd, modelau gofal newydd) a chynllunio'r gweithlu

Bydd y rhyngwrwyd a modelau gofal newydd o fewn y GIG yn parhau i fod yn her i'r 'status quo' ac i optegwyr y stryd fawr. Gallai newidiadau i gyfansoddiad y proffesiynau, gan gynnwys defnydd locymau a gweithwyr rhan amser, gynyddu nifer y cofrestrion mae eu hangen i wasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio'r gweithlu yn gywir.



# Effeithiolrwydd y GOC

## Pwysigrwydd datblygu pobl

Mae buddsoddi yn ein gweithlu yn hanfodol i sicrhau eu bod yn gryf eu cymhelliant, yn gweithredu'n gyson yn unol â'n gwerthoedd a bod ganddynt y capasiti i gyflawni.

## Pwysigrwydd datblygu isadeiledd a gwasanaethau cymorth

Mae gwella'n prosesau a'n hisadeiledd TG, ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn cymryd i ystyriaeth effeithiau ar EDI ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth, fel llywodraethu gwybodaeth, yn hanfodol i'n galluogi i weithredu'n fwy effeithlon a chynnig gwasanaethau gwell. Yn benodol, rydym yn awyddus i symud mwy o wasanaethau ar-lein.

## Gwasanaeth cwsmeriaid cyflym ac uchel ei ansawdd, yn arbennig o ran F'TP

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i bob rheoleiddiwr gofal iechyd fod yn wrthrychol, yn dryloyw a chynnig gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd uchel, yn arbennig wrth ddelio â chwynion addasrwydd i ymarfer yn gyflym ac yn effeithlon. Er y byddai diwygiadau i deddfwriaeth yn helpu yn hyn o beth, mae'n bwysig i ni barhau i wella beth bynnag.

## Yr awydd i gydweithredu'n fwy gyda chyrff eraill

Mae cydweithredu â chyrff eraill yn bwysig, i gyflawni amcanion cyffredin (er enghraifft, gweithio gyda rhanddeiliaid optegol i godi ymwybyddiaeth o sut i wisgo lensys cyffwrdd yn ddiogel) ac i gyflawni arbedion effeithlonrwydd (er enghraifft, cydweithredu â rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol a systemau eraill).

## Pwysigrwydd hygyrchedd

Mae angen i ni sicrhau y gallwn ymgysylltu â'n holl randdeiliaid mewn ffordd hygyrch, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.



# Y newidiadau yn yr amgylchedd allanol

## Ymgais i wneud arbedion effeithlonrwydd o ran cost a gwerth am arian

Mae'r Llywodraeth, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), cofrestrion a'r cyhoedd yn disgwyl i reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol weithredu'n effeithlon a cadw codiadau i ffioedd cofrestru i'r lleiafswm.

## Yr angen i fodloni Safonau Rheoleiddio Da PSA

Yn ein hadolygiad perfformiad diweddaraf (2014/15) llwyddom i fodloni 21 o 24 Safon Rheoleiddio Da y PSA.

## Posibilrwydd o uno neu ddadreoleiddio

Mae'r Llywodraeth a'r PSA wedi codi'r syniad o uniadau a/neu ddadreoleiddio yn y sector rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol. Yn arbennig yng ngoleuni cyflymder mawr newid o fewn gwasanaethau gofal llygaid, credwn fod ar y sector optegol ei reoleiddiwr arbenigol ei hun, sy'n gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr proffesiynol a systemau eraill.



# Beth rydym am ei gyflawni erbyn 2020

## Cenhadaeth

Amddiffyn a hyrwyddo iechyd a diogelwch y cyhoedd

## Gweledigaeth

Mae'r proffesiynau optegol wedi ymbaratoi am rolau'r dyfodol, bod ein gwaith rheoleiddio yn targedu risgiau i iechyd a diogelwch y cyhoedd a'n bod yn gorff sy'n hygyrch ac yn hawdd gweithio gyda ni



### Dysgu a datblygu gan broffesiynau optegol

Cyflawni adolygiad strategol o addysg a hyfforddiant optegol a rhoi newidiadau ar waith i sicrhau bod y proffesiynau optegol wedi eu paratoi am rolau'r dyfodol



### Ymagwedd bwrpasol at reoleiddio

Adeiladu'n sylfaen dystiolaeth a defnyddio amrediad llawn ein cymhellion rheoleiddiol mewn ffordd gymesur i ymdrin â risgiau i'r cyhoedd



### Gweddnewid sefydliadol

Darparu gwasanaethau effeithlon, uchel eu hansawdd, i'r cyhoedd a chofrestreion wedi eu hategu gan ddiwylliant o werthuso a gwella'n gyson


Amcanion strategol y GOC



# Mae ein canlyniadau'n darparu budd i'r cyhoedd


## Dysgu a datblygu gan broffesiynau optegol

Gall cleifion fod yn sicr:




## Ymagwedd bwrpasol at reoleiddio

Gall rhanddeiliaid, gan gynnwys cleifion, fod yn sicr:



## Gweddnewid sefydliadol


Mae rhanddeiliaid yn gweld:





# Ein gweithgareddau

Er mwyn cyflawni'n hamcanion strategol a chanlyniadau cysylltiedig a ddymunir, rydym wedi cynllunio gweithgareddau am bob un o'r tair blynedd nesaf. Dangosir y rhain yn ein cynlluniau busnes blynyddol. Er mwyn sicrhau cyflawni'n hamcanion, rydym yn bendant bod angen i ni gynllunio'n gwaith dros y tair blynedd. Ond nes i ni gwblhau rhywfaint o waith ac ailasesu'n blaenoriaethau, ni allwn gynllunio blynyddoedd dau a thri yn llawn. Gan hynny byddwn yn gwerthuso'n perfformiad yn erbyn ein cynlluniau busnes bob blwyddyn ac yn penderfynu a yw'n cynlluniau am y dyfodol yn aros yn berthnasol neu a oes angen eu hail-flaenoriaethu. Ymhlith yr allbynnau pennaf o'r cynllun bydd:






# Sut byddwn yn mesur cynnydd

Cydnabyddwn bwysigrwydd mesur cynnydd yn erbyn cyflawniad ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol, yn hytrach nag aros tan ddiwedd y cylch strategol cyn gwerthuso effaith ein gwaith.

Bydd y dangosyddion perfformiad strategol sy'n dilyn yn gadael i ni greu darlun o sut rydym yn perfformio ac a ydym ni ar y llwybr cywir i gyflawni'n hamcanion strategol. Rydym yn cydnabod, serch hynny, na fydd yn bosibl gwneud cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn a pha mor dda rydym yn cyflawni'n gweledigaeth a'n hamcanion strategol.



Byddwn yn olrhain ein cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn yn chwarterol, wedi ein cefnogi gan asesiad o'r cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol prosiectau a gweithgareddau'r cynllun busnes.

Bydd ein hasesiad o'r cynnydd yn erbyn cyflawni'n gweledigaeth a'n hamcanion strategol hefyd yn cynnwys gwerthuso allbynnau'n archwiliadau mewnol, adolygiadau dysgu, a phrosiectau allweddol, gan gynnwys:

- Adolygiad Strategol o Addysg;
- Gwerthuso'r cynllun Addysg a Hyfforddiant Parhaus;
- Adolygu'r broses gofrestru o'r tu allan i'r DU;
- Adolygu Deddf Optegwyr;
- Adolygiad Strategol o Safonau;
- Strategaeth Ymarfer Anghyfreithlon;
- Strategaeth Cwynion am FTP;
- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data; a
- fframwaith Sicrhau Ansawdd.



General Optical Council  
10 Old Bailey  
Llundain  
EC4M 7NG

Ffôn +44 (0)20 7580 3898

[www.optical.org](http://www.optical.org)  
E-bost: [goc@optical.org](mailto:goc@optical.org)  
Twitter: [@GOC\\_UK](https://twitter.com/GOC_UK)

Mae'r cynllun hwn ar gael yn Saesneg drwy fynd i [www.optical.org](http://www.optical.org)

Mae'r GOC yn eluson gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1150137)